Cydberthyniad Positif	Dwysedd Amlder = Amlder ÷ Lled Dosbarth	Mae llinell ffit orau'n dangos tuedd y data.
Dylid defnyddio cromlin lefn 'S' i gysylltu pwyntiau'r graff	Graff Gwasgariad	Siart Cylch
Amlder Cronnus	Dylid plotio'r pwyntiau ar 'frig' y lled dosbarth	Mae arwynebedd y barrau yn cynrychioli'r amlder
Data wedi'u grwpio	Mae angen allwedd neu angen labelu'r sectorau (tafellau)	Rhaid i'r newidyn fod yn ddi-dor

Ffordd dda o gynrychioli data sydd â chyfyngau dosbarth anhafal	Po fwyaf y mêl a gynhyrchwch, yr uchaf eich mynegrif cyfoeth.	$0 \leq x < 10$
Mae gan y menywod sydd wedi'u cynnwys rwng sero (yn gynhwysol) a hyd at 10 mlynedd o brofiad o greu'r cynnyrch	Ym Mali, o'u cymharu â'r menywod nad ydynt mewn grwpiau, mae gan y rhai sydd mewn grwpiau fwy o reolaeth ar sut i ddefnyddio'r incwm a ddaw o werthu eu cynnyrch.	Cyfwng Dosbarth
I ganfod y canolrif, byddwn yn tynnu llinell ar draws ac i lawr, hanner ffordd drwy'r data.	Y gyfran fwyaf yw'r un â'r menywod sydd â rhwng 0 a 5 mlynedd o brofiad cynhyrchu.	Ym Mali, o'i chymharu ag Ethiopia, roedd canran uwch o'r rhai a holwyd yn weddwon.
Roedd amrediad rhyngchwartel aelodau WCA yn fwy.	Roedd mynegrifau cyfoeth y menywod yn y WCA yn amrywio llawer ac roeddent yn llawer mwy gwasgaredig.	Yn fyd-eang, mae galw mawr a chynyddol am fêl yn ogystal â chŵyr gwenyn a mathau eraill o gynhyrchion gwenyn.

		
Yr Amrediad Rhyngchwartel = Y Chwartel Uchaf – Y Chwartel Isaf	Perthnasoedd	Roedd amrediad rhyngchwartel y mynegrif cyfoeth yn llai yn achos y rhai nad oeddent yn aelodau WCA.

Yn Ethiopia, o'u cymharu â'r menywod nad ydynt mewn grwpiau WCA, mae gan y rhai sydd mewn grwpiau fwy o reolaeth ar sut y mae'r aelwyd yn gwario'r arian.		Po fwyaf y mêl a gynhyrchwch, yr isaf y ganran a werthwch.
Mae hyn yn golygu bod eu mynegrif cyfoeth yn fwy cyson.	Adiwch yr amlder wrth ichi fynd yn eich blaenau i gael 'cyfanswm hyd yn hyn'.	Nid oes angen i'r llinell ffit orau fynd drwy'r tarddbwynt.
Cydberthyniad Negatif	Y ffordd orau o ddangos canran data neu gyfrannau'r data	Enillodd aelodau grwpiau WCA ym Mali fwy o arian o werthu menyn shea nag y gwnaeth y rhai nad oeddent yn aelodau grŵp.